

Frequently asked questions

Pre-decision questions about
police investigation appeals

Cwestiynau cyffredin

Cwestiynau wedi penderfyniad ynghylch
apeliadau ymchwiliadau'r heddlu

1. Beth yw 'apêl'?

Mae apêl yn gyfle terfynol i ofyn i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ystyried a ymchwiliwyd yn ddigonol i'ch cwyn ac os nad, beth sydd angen ei wneud i daclo unrhyw faterion sy'n parhau.

2. Beth yw 'awdurdod priodol'?

Awdurdod priodol yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am ystyried cwynion a bydd yn rhoi gwybod i chi pa sefydliad fydd yn delio â'ch apêl. Yr awdurdod priodol yw un o'r canlynol:

- prif swyddog yr heddlu (prif gwnstabl fel arfer)
- y comisiynydd heddlu a throseddu sy'n gyfrifol am yr heddlu y gwnaethoch gwyno amdano (os yw eich cwyn am y prif swyddog neu brif swyddog gweithredol yr heddlu)
- Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu (os yw eich cwyn am Gomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan)
- Cyngor Cyffredin Dinas Llundain (os yw eich cwyn am Gomisiynydd Heddlu Dinas Llundain)

3. Beth yw 'corff apêl perthnasol'?

Corff apêl perthnasol yw'r sefydliad fydd yn delio gyda'ch apêl. Naill ai prif swyddog yr heddlu (prif gwnstabl fel arfer) neu'r IOPC yw hyn fel arfer. Er mwyn penderfynu pwy yw'r corff apêl perthnasol, mae'r gwyn yn cael ei phrofi yn erbyn rhestr o amgylchiadau. Rhestrir yr amgylchiadau hyn yng nghwestiwn 4 isod.

Pan ddywedir wrthyfych am ganlyniad eich cwyn, bydd y llythyr yn esbonio a allwch chi apelio ac, os felly, i bwy allwch chi apelio.

Os mai prif swyddog yr heddlu yw'r corff apêl perthnasol, gall benodi prif arolygydd (o leiaf) neu aelod arall o saff yr heddlu ar lefel gyfatebol, i ddelio gyda'ch apêl. Ni all unrhyw un sydd wedi bod yn ymwneud â'ch cwyn gwreiddiol ddelio â'ch apêl.

4. Pryd fydd yr IOPC yn 'gorff apêl perthnasol'?

Yr IOPC yw'r corff apêl perthnasol dan yr amgylchiadau canlynol:

- ar gyfer materion am beidio â chofnodi cwyn
- ar gyfer cwyn ynghylch ymddygiad uwch swyddog o'r heddlu, sy'n rhywun uwchlaw rheng prif uwch-arolygydd
- pan na all yr awdurdod priodol benderfynu ar sail y gŵyn ei hun a fyddai'r ymddygiad y cwynwyd amdano (os caiff ei brofi)
 - na fyddai'n cyfiawnhau gwrandawriad troseddol neu gamymddwyn
 - yn cynnwys gweithredu'n groes i Erthygl 2 (hawl i fywyd)
 - yn cynnwys gweithredu'n groes i Erthygl 3 (gwahardd artaith, a thriniaeth annynol neu israddol) y Ddeddf Hawliau Dynol
- os yw'r gŵyn wedi, neu os oes angen, ei chyfeirio at yr IOPC yn ôl y meini prawf cyfeirio gofynnol
- os yw cwyn yn deillio o'r un digwyddiad â chŵyn sy'n bodloni unrhyw un o'r pwyntiau uchod

5. Pryd nad yw'r IOPC yn 'gorff apêl perthnasol'?

Yr heddlu yw'r corff apêl perthnasol ar gyfer unrhyw gwynion nad ydynt yn cyd-fynd â'r rhestr o amgylchiadau uchod.

6. Pryd allaf i apelio yn erbyn cwyn?

- **Gallwch apelio** yn erbyn ymchwiliad yr heddlu i'ch cwyn.
- **Gallwch apelio** os na chofnodwyd cwyn.
- **Gallwch apelio** yn erbyn y penderfyniad i ddatgymhwyso eich cwyn. (Mae datgymhwyso yn golygu atal y broses gwynion cyn i ymchwiliad gychwyn.)
- **Ni allwch apelio** yn erbyn canlyniad y datrysiad lleol.
- **Gallwch apelio** yn erbyn canlyniad cwyn ar ôl penderfyniad i ddatgymhwyso.
- **Gallwch apelio** yn erbyn y penderfyniad i derfynu ymchwiliad.

7. Pryd nad oes yna hawl i apelio yn erbyn cwyn?

Nid oes hawl i apelio:

- os yw'r mater ynghylch mater cyfarwyddyd a rheolaeth (Sut mae heddlu yn cael ei reoli yw hyn, er enghraifft, rhywbeth sy'n gysylltiedig i safonau plismona neu bolisi plismona.)
- os mai'r prif swyddog yw'r corff apêl perthnasol
- yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod perthnasol i ddatgymhwyso neu derfynu'r ymchwiliad i'r gŵyn ble mae wedi cael caniatâd gan yr IOPC
- ar ymchwiliadau annibynnol yr IOPC

8. A fydd yr IOPC yn ymchwilio i'm cwyn?

Na. Os mai ni yw'r corff apêl perthnasol, ni fyddwn yn ail ymchwilio i'ch cwyn, ond byddwn yn adolygu sut mae'r heddlu wedi cyflawni'r ymchwiliad. Bydd beth mae hyn yn ei olygu yn dibynnu ar y math o apêl a gyflwynoch.

9. Pan mai'r IOPC yw'r 'corff apêl perthnasol', gyda phwy fyddwch chi'n cysylltu ynghylch fy apêl?

Byddwn yn cysylltu â'r heddlu i gasglu'r holl bapurau cefndirol a thystiolaeth berthnasol ynghylch yr ymchwiliad i'ch cwyn. Yna byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i asesu eich apêl. Ni fyddwn yn cysylltu â'r sawl y gwnaethoch gwyn yn ei gylch, ond efallai y bydd rhaid i ni siarad â'r sawl a gyflawnodd yr ymchwiliad gwreiddiol i'ch cwyn. Nid ydym yn cysylltu ag achwynwyr i ofyn am ragor o wybodaeth wrth asesu apêl, oni bai ein bod yn teimlo fod angen. Felly rydym yn eich annog i roi cymaint o wybodaeth â phosibl yn eich apêl.

10. A fyddwch yn gweithredu ar fy rhan?

Rydym yn sefydliad annibynnol sy'n goruchwyllo system gwynion yr heddlu ac nid ydym yn gweithredu ar eich rhan. Fodd bynnag, gallwch ddefnyddio rhywun arall i'ch helpu trwy'r broses, fel aelod o'r teulu neu gyfreithiwr annibynnol.

11. Pryd ddylwn i ddisgwyl derbyn penderfyniad ynghylch fy apêl?

Rydym yn delio gydag apeliadau cyn gynted â phosibl ac yn diweddarau ein gwefan yn rheolaidd i ddangos dyddiad apeliadau yr ydym yn gweithio arnynt. Gallai gymryd hyd at ddeg wythnos i ni ymchwilio i'ch apêl. Fodd bynnag, rydym yn cymryd camau i leihau ein hamserau aros ac mae'n bosibl y byddwn yn asesu eich apêl yn llawer cynt. Yn y llythyr cydnabyddiaeth a anfonwn atoch, byddwn yn eich cyngori tua faint o amser fydd yn cymryd i chi dderbyn penderfyniad. Am ragor o wybodaeth, gweler <http://www.policeconduct.gov.uk/appeals>

12. Dwi wedi gwneud fy apêl. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd eich apêl yn cael ei hasesu yn defnyddio'r holl bapurau a thystiolaeth ategol sydd ar gael yr ydych chi a'r awdurdod priodol wedi darparu. Bydd y sawl sy'n edrych ar eich apêl yn gwneud ei benderfyniad yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, yn ddibynnol ar y math o apêl. Wedi i ni wneud penderfyniad apêl o naill ai 'cynhaliwyd' neu 'ni chynhaliwyd', byddwn yn ysgrifennu atoch chi a'r awdurdod perthnasol ac yn esbonio'r rhesymau dros ein penderfyniad.

Gellir cadarnhau apêl, os bydd y canfyddiadau yn dangos na wnaeth y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu gyrraedd y safon y gall unigolyn rhesymol ei disgwyl.

Os na chadarnheir apêl, gall olygu bod y gwasanaeth mae'r heddlu wedi'i ddarparu wedi cyrraedd y safon y gallai unigolyn rhesymol ei disgwyl. Efallai na fydd yn ofynnol i'r heddlu weithredu ymhellach ynghylch eich cwyn.

13. Pryd fydda i'n gallu cyflwyno gwybodaeth i'w hystyried yn y broses apêl?

Yr amser pan wnaethoch chi eich apêl yw eich cyfle i'n darparu â'r holl wybodaeth i'w hystyried. Mae hyn oherwydd na allwch roi gwybodaeth atodol i'w hystyried wedi gwneud penderfyniad. Mae gennych chi **29 niwrnod**, yn cychwyn o ddyddiad eich llythyr gan yr awdurdod priodol i gyflwyno'r ffurflen apêl a chopi o'r llythyr penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys yr amser y mae eich apêl yn ei dreulio yn y post.

Mewn rhai achosion, gallwn dderbyn gwybodaeth atodol wedi'r cyfnod o 29 niwrnod, ond dim ond hyd nes y byddwn yn neilltuo rheolwr gwaith achos i asesu'ch apêl. Ni fyddwn yn derbyn gwybodaeth wedi i ni neilltuo rheolwr gwaith achos.

Os ydych chi eisiau anfon cyfrwng digidol atom i gefnogi eich apêl, sicrhewch ei fod wedi amgryptio (wedi ei ddiogelu â chyfrinair) ac yn anfon y cyfrinair atom ar wahân. Os byddwn yn derbyn cyfrwng heb ei amgryptio a'ch bod eisiau ei ddychwelyd atom yn hwyrach, efallai na fyddwn yn gallu ei anfon atoch yn ei ffurf wreiddiol.

Os na fyddwn yn derbyn eich apêl cyn pen **29 diwrnod**, nid oes raid i ni ystyried eich apêl. Efallai y bydd yn bosibl derbyn eich apêl tu allan i'r cyfnod apelio, os oes gennych amgylchiadau arbennig iawn a'ch bod yn medru esbonio'r rhesymau dros oedi cyn cyflwyno yn llawn.

14. A yw'r IOPC yn delio â hawliadau iawndal?

Na. Nid yw cylch gorchwyl yr IOPC yn cynnwys hawliadau am iawndal gan yr heddlu. Os byddwch am fynd ar ôl unrhyw hawliadau ariannol yn erbyn yr heddlu, dylech gysylltu â'r heddlu dan sylw.

Gallwch hefyd gysylltu â'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth yn lleol am wybodaeth neu i gael cyngor cyfreithiol.

15. Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cytuno â phenderfyniad yr awdurdod priodol am fy apêl?

Ni allwch apelio at yr IOPC ynghylch penderfyniad apêl a wnaethpwyd gan yr awdurdod priodol.

Mae penderfyniadau apêl yn derfynol. Mae hyn yn golygu mai dim ond y llysoedd, drwy'r broses adolygiad barnwrol, all wydroi unrhyw benderfyniadau a wneir gan yr awdurdod priodol. Dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol os bwriadwch symud ymlaen fel hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu fod arnoch angen rhagor o wybodaeth am y penderfyniad apêl, cysylltwch â'r awdurdod priodol. Gallant esbonio'r penderfyniad ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

16. A all yr IOPC wneud i'r heddlu ymddiheuro i mi?

Na. Gall yr IOPC argymhell y dylid cynnig ymddiheuriad, ond ni all gyfarwyddo'r heddlu i wneud hyn.